


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref a gynhaliwyd yn Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan a thrwy gyfrwng Microsoft Teams am 19.00 Tachwedd 9 2021

Presennol :- Cynghorwyr : Malcolm Humphreys, Selwyn Griffiths, Aled Griffith, Richard Williams, Gwilym Jones, Jason Humphreys, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Dr Melfyn Edwards, Ian Wyn Jones, Stuart Nashir-Hallard, Alwyn Gruffydd
Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cynghorwyr : Linda Wyn Roberts

160.11.21 Ymddiheuriadau

Cynghorwyr : Nia Jeffreys, Simon Brooks, Carol Hayes, Bethan Rees Jones

161.11.21 Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac eglurodd fod y Clerc wedi derbyn ymddiheuriad gan Garem Jackson am na fedrai fod yn bresennol heno i annerch y Cyngor Tref. Bwriedir ail-drefnu ymweliad ganddo ef a'r Cynghorydd Cemlyn Rees Williams pan yn gyfleus.

Cyfeiriodd at yr adroddiadau yn y papurau newydd am y digwyddiad diweddar yng Nghricieth pan fu degau o bobl ifanc yn creu trafferthion i'r Heddlu ac i'r cyhoedd gyda eu hymddygiad gwrth-gymdeithasol. Roedd yn gresynu fod hyn wedi digwydd ac yn cyfeirio at y ffaith fod plant a phobl ifanc o ardal Porthmadog ymhlith y rhai oedd yn cam-ymddwyn. Roedd yn poeni fod y bobl ifanc yma yn rhoi eu hunain mewn perygl difrifol wrth fynd dros ben llestri yn y fath fodd.

Roedd y Cadeirydd hefyd am gyfeirio at Gynhadledd Cop26 sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd yn Glasgow. Roedd am i'r Cyngor gydnabod pwysigrwydd y gynhadledd hon yn genedlaethol ac yn lleol ac yn cymeradwyo'r ymdrechion i liniaru effeithiau newid hinsawdd. Gan fod ardal Porthmadog wedi ei sefydlu ar dir sydd wedi ei ddwyn o'r môr gwyddom oll am y peryglon difrifol fuasai'n wynebu trigolion yr ardal wrth i dymheredd y byd godi a chreu peryglon sylweddol o lifogydd yn y dyfodol.

Ychwanegodd y Cyng Richard Williams fod bygythiad o lifogydd yn dod hefyd o gyfeiriad yr afonydd sydd yn bwydo Aber Glaslyn a bod angen ymestyn y giatau ar y Dorau Mawr er mwyn gwagio'r Cob yn fwy effeithlon. Cydnabyddwyd fod asiantaethau wedi bod yn modelu'r risg cynyddol o lifogydd yn ardal Porthmadog.

162.11.21 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

➤ Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Hydref 12 2021

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

➤ Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Llawn Hydref 19 2021

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

163.11.21 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Dim datganiad o ddiddordeb.

Materion i'w dwyn gerbron :-

164.11.21 Cynnig Cyng Dr Simon Brooks :- dewis cynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Borth y Gest.

Yn absenoldeb y Cyng Dr Simon Brooks **penderfynwyd** gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

Eglurodd y Cadeirydd fel yr oedd wedi cael sêl bendith Corff Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn i newid o fod yn Gynrychiolydd Cymunedol i fod yn Gynrychiolydd y Pwyllgor Tref ar y Bwrdd Llywodraethol. Cododd y Cyng Jason Humphreys Fater o Drefn ynglyn â'r drefn yma o ethol cynrychiolydd o'r Pwyllgor Tref.

Penderfynwyd :- rhoi'r mater ar Raglen cyfarfod mis Rhagfyr yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

165.11.21 Cynnig Cyng Alwyn Gruffydd :- Ymateb fel corff i'r ddogfen Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo a ffurflen ymateb ar-lein erbyn Tachwedd 17 2021 (wedi ebostio 25.8.21) (Gohebiaeth 4 14.9.21) (Copi o atebion drafft ynghlwm)

Roedd y Cyngor Tref yn gwerthfawrogi cyfraniad y Cyng Alwyn Gruffydd a diolchodd y Cyng Richard Williams i'r Cyng Alwyn Gruffydd am ei waith yn paratoi atebion i'w cofnodi ar y ffurflen ymateb ar-lein.

Penderfynwyd :- cymeradwyo'r atebion a gofyn i'r Clerc eu lawrlwytho ar y ffurflen ymateb ar-lein.

166.11.21 Cynnig Cyng Richard Williams :- marchnad Heol y Parc - cwestiynu gwerth y farchnad

Eglurodd y Cyng Richard Williams fel yr oedd y farchnad o 2 neu 3 stondin yn cymeryd lle 20 o lefydd parcio a bod hyn yn creu colled o ran refeniw arian parcio. Roedd yn cynnig fod y Cyngor Tref yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt ddiddymu'r farchnad. Yn y drafodaeth yn dilyn nodwyd y pwyntiau canlynol :-

- Y byddai'r dref yn colli adnodd bwysig
- Fod y farchnad yn fodd i gefnogi a hyrwyddo busnesau lleol
- Fod y farchnad yn fodd i denantiaid Cae Pawb werthu eu cynnyrch
- Ydi arian rhent y stondinwyr yn mynd tuag at y refeniw meysydd parcio?
- Oes posib symud y farchnad i mewn i'r Parc?
- Fod y Cyngor Tref yn y gorffennol wedi gwrthwynebu'n gryf unrhyw gais i symud y farchnad

Penderfynwyd :- gwrthod y cynnig o 9 pleidlais i 2.

167.11.21 Cynnig Cyng Richard Williams:- Clwb Chwaraeon Madog – Llythyru'r Clwb i holi beth ydi'r gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal ar y safle .

Roedd y Cyng Richard Williams yn bryderus am sefyllfa'r Clwb Chwaraeon ac yn nodi mai dim ond 20 acer allan o'r 35 ar y safle sy'n cael eu defnyddio i bwrpas chwaraeon. Clywyd fel yr oedd Clybiau chwaraeon yn dechrau ail-gydio yn eu gweithgareddau ar ôl y cyfnod clo a bod mwy a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r lle yn ddiweddar. Roedd yn awyddus i drefnu cyfarfod gyda swyddogion y clwb er mwyn dechrau trafodaeth a mynegi ei bryderon. Roedd wedi derbyn llythyr gan aelod o'r cyhoedd am yr union fater yma ac wedi ei basio ymlaen i'r Clerc. Caiff ei gynnwys yn rhestr Gohebiaeth cyfarfod mis Rhagfyr.

Penderfynwyd :- pasio'r mater ymlaen tan y cyfarfod nesaf pan fydd y Cynghorwyr wedi cael cyfle i ddarllen y llythyr, yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys.

168.11.21 Cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards :- gyrru cais i Gyngor Gwynedd am fwy o oleuadau ar y lôn waelod o'r Clwb Hwyllo i gyfeiriad Borth y Gest.

Eglurodd y Cyng Dr Melfyn Edwards pa mor bwysig oedd sicrhau diogelwch y cyhoedd trwy sicrhau darpariaeth eang o oleuadau stryd yn enwedig o ystyried y digwyddiadau erchyll diweddar yn Llundain o ymosodiadau rhywiol a threisgar. Dywedodd fel yr oedd y ffordd waelod tuag at Borth y Gest yn newid o fod yn ffordd i foduron i fod yn llwybr cerdded ac nad oedd yn sicr o statws y ffordd, os mai ffordd gyhoeddus ynteu ffordd breifat oedd hi. Pwy felly oedd yn gyfrifol am ddarparu goleuadau ar y ffordd?

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn llythyru'r Adran Priffyrdd i holi am statws y ffordd ac i ofyn i Adran Priffyrdd Gyngor Gwynedd ddarparu goleuadau ar hyd y ffordd, yn ôl cynnig y Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

169.11.21 Cynnig Cyng Alwydd Gruffydd :- gyrru cais i Gyngor Gwynedd i drwsio mainc Sunnyside

Nodwyd mai wrth teras Sunnyside mae'r fainc ac nid ar ben creigiau Tremadog.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Richard Williams yn eilio.

170.11.21 Cynnig Cyng Gwilym Jones :- cysylltu hefo Cyfarwyddwr Ystadau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader i ofyn am ddiweddariad am sefyllfa tir Llaethdy Moelwyn.

Cywirwyd y camgymeriad ac eglurwyd mai Model Dairy oedd yr enw cywir ac nid Moelwyn Dairy. Nodwyd hefyd mai Elusen Awyr Las sydd berchen y tir.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig y Cyng Gwilym Jones, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

171.11.21 Cynnig Cyng Jason Humphreys :- mynegi pryder am ddatganiad gan Ymddiriedolwyr Elusen Canolfan Cymdeithasol Porthmadog (h.y.. "Y Ganolfan") mewn dogfen gyhoeddus parthed eu "Cyngor" sy'n golygu, i bob pwrpas, bod trigolion Porthmadog bellach wedi colli'r hawl i ddewis eu Swyddogion a rhan fwyaf o'r Ymddiriedolwyr .(gweler tudalen 2 a 3 o Adroddiad Blynyddol 2020 Y Ganolfan – copi ymghlwm)

Penderfynwyd :- trafod y cynnig hwn ar y cyd gyda mater 172.11.21 isod.

172.11.21 Cynnig Cyng Jason Humphreys :- ysgrifennu'n ffurfiol at Elusen Canolfan Cymdeithasol Porthmadog (h.y.. "Y Ganolfan"), ynghyd â chopi at Brif Swyddog Cyfreithiol Gyngor Gwynedd (mewn perthynas â "Deed of Trust" a phrydles efo "Y Ganolfan"), i fynegi pryder a chanfod eglurhâd

Dechreuodd y Cyng Jason Humphreys drwy ddiolch i Bwyllgor Rheoli (h.y. Ymddiriedolwyr yr elusen) y Ganolfan am eu gwaith caled yn sicrhau bodolaeth y safle yn enwedig o ystyried y trafferthion diweddar yn deillio o'r Pandemig. Roedd yn llwyr ymwybodol mai gwirfoddolwyr sydd yn rhedeg y sefydliad a'u bod yn rhoi o'u hamser a'u arbenigedd am ddim i sicrhau bod y Ganolfan yn weithredol. Roedd am eu llongyfarch am lwyddo i gael grantiau ychwanegol i ychwanegu at goffrau'r Ganolfan. Roedd yn pwysleisio nad oedd ganddo gŵyn o gwbwl yn erbyn staff y Ganolfan ond roedd yn nodi y pryderon canlynol :-

- Bod "Cyngor y Ganolfan" wedi cael ei ddehongli ers y 1970'au cynnar fel pob oedolyn sy'n byw yn ardal Porthmadog.
- Bod Cyfrifon Y Ganolfan am 2019/20 yn datgan bod y "Cyngor" bellach wedi cael ei ddehongli fel yr Ymddiriedolwyr yn unig.
- Nad yw'r dehongliad newydd yma yn dderbyniol gan ei fod o'n cymeryd hawliau i ffwrdd oddi ar bobl y dref i ddewis rhan helaeth o'r Pwyllgor Rheoli a Swyddogion mewn Cyfarfodydd Blynyddol a rhai Arbennig Gyffredinol.
- Bod hyn yn gwro'n ormodol o delerau'r "Deed of Trust", Prydles a'r Cyfansoddiad.

Penderfynwyd :- y Clerc i anfon llythyr at Ysgrifennydd y Ganolfan a Prif Swyddog Cyfreithiol Cyngor Gwynedd yn mynegi'r sylwadau uchod ac i ganfod eglurhâd yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

173.11.21 Cynnig Cyng Jason Humphreys :- ysgrifennu at Elusen Canolfan Cymdeithasol Porthmadog (h.y.. "Y Ganolfan") i fynegi pryder ac anfodlonrwydd am sylwadau sydd wedi cael eu gwneud am Y Cyngor Tref mewn dogfen gyhoeddus.

(gweler tudalen 2 a 3 o Adroddiad Blynyddol 2020 Y Ganolfan – copi ymghlwm)

"In the current year the charity did not receive the customary grant funding amounting to £15,000 from Porthmadog Town Council towards the promotion of culture and the arts (2019:£15,000). This being due to an ongoing dialogue over the interpretation of the constitution, which a member of the Town Council interprets in a different manner to the charity and the professional advice it has sought."

Cyfeiriodd y Cyng Jason Humphreys at y dyfyniad uchod a nododd y pwyntiau canlynol :-

- Ei bod yn groes i Deddf Llywodraeth Leol 1972 i Gyngor Tref rhoi grym i un Aelod i wneud penderfyniad o'r fath.
- Mai benderfyniad mwyafrif y Cyngor Tref ydoedd atal y grant nes eu bod wedi eu bodloni bod Y Ganolfan yn ymddwyn yn gyfreithiol parthed cofrestru Ymddiriedolwyr gyda'r Comisiwn Elusenu.
- Bod Y Cyngor Tref wedi egluro'n ysgrifenedig i Gadeirydd Y Ganolfan mai pryder dros fater cyfreithiol oedd hyn ac nid mater cyfansoddiadol.
- Bod Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi tynnu sylw Ysgrifennydd Y Ganolfan mewn llythyr nad oedd yr elusen wedi dangos tystiolaeth uniongyrchol eu bod nhw yn ymddwyn yn gyfreithiol parthed cofrestru Ymddiriedolwyr.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio, a gyrru copi hefyd at gwmni Dunn and Ellis.

174.11.21 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Rhaglen Rhagfyr 14 – Rhagfyr 4ydd 2021, (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- Cynnig Cyng Dr Simon Brooks :- dewis cynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Borth y Gest.
- Cynnig Cyng Jason Humphreys :- dewis cynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eifion Wyn.
- Cyng Aled Griffith :- Trafod arwyddion Helo Port
- Cyng Dr Melfyn Edwards :- Trafod dirywiad cors Borth y Gest

175.11.21 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

Gohebiaeth :

176.11.21 Steffan Jones, Ymateb i 123.2.21 Dropped kerb

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i drefnu cyfarfod gyda'r Swyddog newydd ar y safle, yn ôl cynnig Cyng Richard Williams.

177.11.21 Steffan Jones, Ymateb i 59.6.21 Problem Canglwm

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

178.11.21 Dewi Wyn Owen, Ymateb i 149.3.21 Llwybr Penmount a Llwybr Peniel

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a gwneud cais i Gyngor Gwynedd i ail-gofrestru llwybr Peniel, Tremadog er mwyn adfer ei statws fel llwybr cyhoeddus yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.

179.11.21 Gareth Hughes – Uned Incwm Gwynedd, Toiledau

Penderfynwyd :- trafod y mater yma ar y cyd gyda Gohebiaeth 7. Gweler cofnodion 182.11.21 isod.

180.11.21 Bedwyr Lloyd Williams, Adroddiad ar gyfarfod efo Cyng Aled Griffith ar 13.10.21 yn dilyn cynnig 99.9.21 Llochesi Tremadog

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

181.11.21 Un Llais Cymru, Model Brothocol Datrysiadau Lleol

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

182.11.21 Steffan Jones, Ymateb i 125.9.21 Cais am anfoneb am doiledau Borth y Gest yn unig

Trafodwyd Gohebiaeth 4 a 7 ar y cyd a cynigiodd y Cyng Jason Humphreys fod y Cyngor Tref yn ymateb drwy lythyr yn nodi'r sylwadau canlynol :-

- Mynegi diolch i Steffan Jones, am gydnabod pwysigrwydd toiledau cyhoeddus Porthmadog
- Ceisio rhoi perswâd ar Gabinet Cyngor Gwynedd i beidio a chau'r toiledau
- Ail-ddatgan fod y Cyngor Tref yn fodlon cyfrannu at gostau toiledau Borth y Gest **yn unig** ac felly yn gofyn am hanneru'r anfoneb
- Nodi mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw gofalu am doiledau cyhoeddus Gwynedd a sicrhau eu bod yn aros ar agor
- Awgrymu y dylid ail-osod y peiriannau talu am ddefnyddio'r toiledau fel bod Gwynedd yn derbyn incwm amdanynt.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig y Cyng Jason Humphreys, Cyng Richard Williams yn eilio.

183.11.21 Garem Jackson, Ebost am Y Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg, Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 32 tudalen (Copi Electronig yn unig)

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Cyng Alwyn Gruffydd i ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori ar ran y Cyngor Tref yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

184.11.21 Steffan Jones, Ymateb i 137.10.21 Problem parcio Tremadog

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

185.11.21 Julie James, Ymateb i 116.9.21 Ail gartrefi –(Cais i weithredu ar argymhellion)

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

186.11.21 Craig ap Iago, Ymateb i 50.11.20 (Mynegi siom yn ei ymateb, holi lle mae'r cynllun arni)

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

187.11.21 Materion Ariannol :

Derbyniadau :

HSBC	Llog Banc Hydref 2021	£	00.28
HSBC	Trosglwyddiad wedi cau Cronfa'r Cadeirydd	£	1,260.00

Biliau i'w talu :

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Hydref 2021	£	47.70
2	Marian Roberts	Cardiau – Siop Pikes	£	3.99
3	Marian Roberts	Costau Teithio Hydref 2021	£	4.90
4	Marian Roberts	Cyflog Clerc Hydref 2021	£	639.17
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Hydref 2021	£	160.07
6	Y Ganolfan	Gwersi Cymraeg mis Hydref	£	90.00
7	Y Ganolfan	Cyfarfodydd mis Hydref	£	60.00
8	Ed Fray	Torri coed Bryn Coffa	£	432.00
9	Ashley Hughes	Offer swyddfa	£	39.19

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Penderfynwyd :- cymeradwyo'r taliadau yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

188.11.21 Ceisiadau Cynllunio**(a) Rhif Cais .: C21/1004/44/DT (wedi ebostio 20.10.21)**

Lleoliad : Cilgerran, 2, Rhes Garth Ffordd Garth, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9BE

Bwriad : Estyniad deulawr cefn yn cynnwys addasu ystafelloedd storio llawr daear i greu ystafell wlyb ac adeiladu ystafell ymolchi llawr cyntaf ynghyd ag ardal 'decking' newydd.

Penderfyniad :- Dim gwrthwynebiad

Ar ôl cau'r rhaglen :-**(b) Rhif Cais .: C21/1057/44/CC (wedi ebostio 5.11.21)**

Lleoliad : 7 Gatws Morfa, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9PF

Bwriad : Gwaith tocio i dair coeden

Penderfyniad :- Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30

Marian Roberts (Clerc)

12.11.21

